

Craig Rhosyfelin

tarddiad rhai o gerrig gleision Côr y Cewri
Teithiau Byr



GRADDFA: 0 100 200 m

PELLTER/HYD: 0.6 milltir (1.0 km) 30 munud

CYMERIAD: 300m o gerdded ar isffordd, rhiw serth. Cerdded gweddol wastad yn y cae ar hyd llwybr troed cyhoeddus, tir anwastad, dim camfeydd

CHWILIWCH AM: Clegyr Craig Rhosyfelin, tarddiad o leiaf un o'r cerrig gleision o gylch mewnol Côr y Cewri

MWY O WYBODAETH: Mae mynediad ar hyd trac cul sengl gydag ychydig o leoedd i basio. Dod o gyfeiriad y gorllewin trwy Frynberian i osgoi'r rhyd ddofn a rhan serth droellog o'r ffordd yn y dyffryn. Defnyddiwch yr ardal barcio ddnodedig ar ochr y ffordd a pheidwch â pharcio mewn mynedfeydd na manau pasio. Cadwch at y llwybr cyhoeddus os gwelwch yn dda, mynediad i'r brigiad craig drwy ganiatâd y tîrfeddiannwr.



Cadwch gŵn ar dennyn, os gwelwch yn dda, gan fod da byw yn pori ar y tir hwn.

COD CEFN GWLAD!

- Mwynhewch y cefn gwlad a pharcu ei fywyd a'i waith
- Gochelwch rhag unrhyw risg o dân
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Cadwch at y llwybrau cyhoeddus wrth groesi tir amaethyddol
- Ewch â'ch sbwriel adref gyda chi

ALLWEDD

- Hyrwyddwyd Llwybr
- Llwybrau Cyhoeddus
- P** Parcio



Craig Rhosyfelin

tarddiad rhai o gerrig gleision Côr y Cewri
Teithiau Byr

Hyd: 30 munud

Pellter: 0.6 milltir (1.0 km)

Cyfeirnod map: SN117362

Mae'r brigiad creigiog hwn o gerrig yn gorwedd o fewn dyffryn dwfn diarffordd. Dyma le cloddiwyd o leiaf un o'r cerrig gleision a gludwyd yn ddiweddarach i Gôr y Cewri - mwy na thebyg dros y tir ar slediau'n cael eu llusgo gan ychen. Gellir gweld y brigiad creigiog o'r ffordd neu o lwybr troed cyhoeddus cyfagos. Cadwch at y llwybr cyhoeddus os gwelwch yn dda, mynediad i'r brigiad craig drwy ganiatâd y tîrffediannwr.

Mae'r llwybr troed yn parhau i fyny'r dyffryn i bontio'r ffrwd. Mae'r tir yn berchnogaeth breifat ac mae gan y perchennog tir Gytundeb Rheolaeth gydag Awdurdod y Parc Cenedlaethol i sicrhau fod tirwedd arbennig a nodweddion gwarchodfa byd natur y dyffryn hwn nas difethwyd yn cael eu cadw.

Er mwyn cyflawni hyn yr ydym yn dibynnu ar barhad arferion ffermio traddodiadol yma, sef pori a llosgi achlysurol o eithin yn y gaeaf. Defnyddir merlod mynydd gwydn Cymru i gynnal y clytwaith o gynefinoedd, sy'n cynnwys glaswelltir agored, rhostir a thir prysgwydd. Mae'r rhain, yn eu tro, yn cynnal rhywogaethau pwysig megis y glöyn byw prin, brith y gors, a phlanhigion megis y carwe sidellog a fioled y cŵn gwelw, sy wedi dirywio'n fawr mewn mannau eraill.

Rhybudd: Cadwch gŵn ar dennyn, os gwelwch yn dda, gan fod da byw yn pori ar y tir hwn.



Craig Rhosyfelin



Brith y Gors